Uned Atal Trais
Violence Prevention Unit

Asesiad o Anghenion Iechyd:

# Effaith COVID-19 ar brofiadau plant a phobl ifanc o drais a phrofiadau niweidiol yn ystod plentyndod

(adroddiad crynodeb)



Uned Atal Trais
Violence Prevention Unit

# Asesiad o Anghenion Iechyd: Effaith COVID-19 ar brofiadau plant a phobl ifanc o drais a phrofiadau niweidiol yn ystod plentyndod (adroddiad crynodeb gweithredol).

## Awduron

Katie Cresswell[1&2], Emma R. Barton[1&2], Lara Snowdon[1&2], Annemarie Newbury[1&2], Laura Cowley[3&4]

[1]Polisi a Iechyd Rhyngwladol, Canolfan Gydweithredu Sefydliad Iechyd y Byd ar Fuddsoddi ar gyfer Iechyd a Llesiant, Iechyd Cyhoeddus Cymru

[2] Uned Atal Trais Cymru

[3] Is-adran Ymchwil a Gwerthuso, y Gyfarwyddiaeth Gwybodaeth, Iechyd Cyhoeddus Cymru

[4]Canolfan Genedlaethol Ymchwil Iechyd a Llesiant y Boblogaeth, Ysgol Meddygaeth Prifysgol Abertawe, Y Deyrnas Unedig

## Diolchiadau

Hoffai Uned Atal Trais Cymru (VPU) ddiolch i'r cynrychiolwyr canlynol o ystod o sefydliadau a gyfrannodd eu hamser a'u barn arbenigol i lywio'r ymchwil:

*Mark A Bellis (Cyfarwyddwr Polisi a Iechyd Rhyngwladol, Canolfan Gydweithredu Sefydliad Iechyd y Byd ar Fuddsoddi ar gyfer Iechyd a Llesiant (WHOCC))*

*Jon Drake (Cyfarwyddwr Uned Atal Trais Cymru)*

*Jo Hopkins (Cyfarwyddwr Rhaglen Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod (ACE), Cyfiawnder Troseddol ac Atal Trais, WHOCC)*

*Liz Green (Uned Gymorth Asesu'r Effaith ar Iechyd Cymru (WHOCC)*

*Andrew Williams (Grid Dysgu'r De Orllewin (SWGfL))*

*Sam Austin & Preeya Vara (Llamau)*

*Andy Wallsgrove (Swyddfa Comisiynydd Plant Cymru)*

*Cecile Gwilym & Dr Sarah Witcombe-Hayes (Cymdeithas Genedlaethol er Atal Creulondeb i Blant (NSPCC))*

*Michelle Morgan (Llywodraeth Cymru)*

*David Pearce (arweinydd ACE Llywodraeth Cymru)*

*Dave Williams (cynghorydd Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc Llywodraeth Cymru)*

Hoffai'r VPU hefyd ddiolch i'r sefydliadau a gyfrannodd eu hamser i gymryd rhan yn y cyfweliadau:


| | |
|---|---|
| *BAWSO* | *SWGfL* |
| *Barnardo's* | *Llywodraeth Cymru* |
| *Comisiynydd Plant Cymru* | *Tîm Diogelu Cenedlaethol* |
| *Llamau* | *Canolfan Atgyfeirio Ymosodiadau Rhywiol Caerdydd* |
| *Parent-Infant foundation* | *Ysgol Gynradd Penllergaer* |
| *Academi Cyfryngau Cymru* | *Canolfan Ieuenctid Caerdydd* |

Hoffai'r awduron hefyd ddiolch i Amy Bucknall (*nyrs ddynodedig, Tîm Diogelu Cenedlaethol, Iechyd Cyhoeddus Cymru*), Natasha Judd[1], Andy Wallsgrove ac Alex Walker[1&2] am brawfddarllen a darparu adborth gwerthfawr i'r prosiect.

## Trosolwg o Uned Atal Trais Cymru

Sefydlwyd Uned Atal Trais Cymru trwy gyllid gan y Swyddfa Gartref yn 2019. Mae'r tîm craidd yn cynnwys aelodau o heddluoedd, Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu, Iechyd Cyhoeddus Cymru, Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi (HMPPS), Mewnfudo'r Swyddfa Gartref a'r sector gwirfoddol.

Mae'r Uned yn defnyddio dull iechyd cyhoeddus o atal trais (*gweler ffigur 1*), sy'n cynnwys ceisio deall epidemioleg trais, a defnyddio'r dystiolaeth hon i ddatblygu ymyriadau sy'n canolbwyntio ar fynd i'r afael ag achosion sylfaenol trais. Mae'r ymyriadau hyn yn cael eu gwerthuso'n gywir cyn cael eu cyflwyno'n ehangach, os yn briodol, i helpu mwy o bobl a chymunedau ledled Cymru. Trwy'r dull hwn nod yr Uned yw datblygu ymateb system gyfan i atal trais.




Ffigur 1. Y pedwar cam tuag at ddull iechyd y cyhoedd o atal trais

## Talfyriadau

| | |
|---|---|
| **HNA** | Asesiad o Anghenion Iechyd |
| **VPU** | Uned Atal Trais Cymru |
| **COVID-19** | Coronafeirws Newydd 2019 (2019-nCoV) |
| **NTE** | Economi'r Nos |
| **ACE** | Profiadau niweidiol yn ystod plentyndod |
| **BAME** | Du ac ethnigrwydd lleiafrifol |
| **NEET** | Heb fod mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant |

| | |
|---|---|
| **LHDT+** | Lesbiaidd, hoyw, deurywiol, trawsrywiol + *Mae "Plws" yn cynrychioli rhestr o hunaniaethau eraill sy'n dod o dan ymbarél queer* |
| **SEND** | Anghenion addysgol arbennig a/neu anableddau |
| **VAWDASV** | Trais yn erbyn menywod, cam-drin yn y cartref a thrais rhywiol |
| **FGM** | Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod |
| **C/APV** | Trais plant a phobl ifanc at rieni |
| **ASB** | Ymddygiad gwrthgymdeithasol |

## Cynnwys


**Amlinelliad o'r prosiect** t.5

- Cyflwyniad
- Methodoleg
- Prif ganfyddiadau
  - Trais ac ACEs
  - Penderfynyddion ehangach
- Casgliad

**Prif Ganfyddiadau** t.6

- Defnyddio alcohol a sylweddau
- Trais yn erbyn menywod, cam-drin yn y cartref a thrais rhywiol
- Trais corfforol
- Iechyd a llesiant meddyliol
- Cam-drin a chamfanteisio rhywiol
- Camfanteisio troseddol a thrais ieuenctid difrifol

**Arfer gorau wrth liniaru'r effeithiau negyddol** *t. 11*

- Cynnal gwasanaethau a chadw staff
- Ymyrraeth gynnar
- Arian a chyllid
- Hyfforddiant
- Cyfathrebu
- Cydgynhyrchu
- Ymateb wedi'i dargedu
- Dull amlasiantaeth

**Camau gweithredu yn y dyfodol** *t.13*

**Cyfeiriadau** *t. 15*

## Amlinelliad o'r prosiect

### Cyflwyniad

- Mae'r pandemig coronafeirws 2019 newydd (COVID-19) wedi cael effaith enfawr ledled y byd, ac mae'n parhau i gael yr effaith honno. Mae'r pandemig wedi arwain at filiynau o farwolaethau ledled y byd a thua 143,000 o farwolaethau yn y Deyrnas Unedig (Mawrth 2021). Er bod plant a phobl ifanc (PPhI) yn un o'r grwpiau lleiaf agored i niwed o ran COVID-19, mae arbenigwyr wedi lleisio pryderon ynghylch niwed anuniongyrchol COVID-19 ar PPhI.

- Mae'r pandemig wedi arwain at lawer o heriau i PPhI, gan gynnwys tarfu ar addysg, cefnogaeth, gweithgareddau cymdeithasol a threfn arferol. Oherwydd cyfyngiadau COVID-19, mae unigolion wedi gorfod treulio mwy o amser yn y cartref ac wedi treulio mwy o amser ar-lein, ffactorau a allai gynyddu'r risg o ddod i gysylltiad â thrais a phrofiadau niweidiol yn ystod plentyndod (ACEs), yn enwedig ymhlith y plant a phobl ifanc mwyaf agored i niwed.

### Methodoleg

Nod yr asesiad o anghenion iechyd hwn oedd:

- Deall effaith COVID-19 ar brofiadau PPhI o drais ac ACEs
- Archwilio arfer da i liniaru effeithiau negyddol COVID-19 ar PPhI
- Mapio i ba raddau y mae'r gwasanaethau a'r rhaglenni hyn yn cael eu gweithredu yng Nghymru
- Darparu'r camau nesaf posibl ar gyfer adferiad COVID-19 a chynllunio cydnerthedd i rannu dysgu a gwneud Cymru yn lle mwy diogel i PPhI yn ystod y pandemig ac yn y dyfodol.

Defnyddiwyd y dulliau canlynol i ddatblygu'r HNA:

- Adolygiad llenyddiaeth sy'n archwilio llenyddiaeth academaidd a llwyd (erthyglau a gyhoeddwyd rhwng Ionawr 2020 - Mawrth 2021)
- Cyfweliadau â rhanddeiliaid â gweithwyr proffesiynol o sefydliadau sy'n cefnogi PPhI
- Dadansoddiad o ddata gwyliadwriaeth trais VPU Cymru a data sydd ar gael i'r cyhoedd i ddatblygu proffil poblogaeth

Cyfarfu grŵp llywio amlasiantaeth yn rheolaidd trwy gydol y prosiect i ddarparu arweiniad a chyngor.

## Prif ganfyddiadau

### Trais ac ACEs

**Defnydd o alcohol a sylweddau gan rieni**

Cynnydd yn y defnydd o alcohol, yn enwedig mewn rhieni â phlant <18 oed

**VAWDASV**

Cynnydd yn nifer y PPhI sy'n gweld cam-drin yn y cartref a chynnydd mewn niwed o gam-drin yn y cartref ym mherthnasoedd pobl ifanc

**Trais corfforol**

Cynnydd mewn adroddiadau o gam-drin corfforol tuag at blant a chynnydd mewn anafiadau sy'n gysylltiedig â cham-drin plant yn gorfforol a welir mewn ysbytai

**Iechyd meddwl**

Gwaethygu iechyd meddwl ymhlith PPhI gan arwain at gynnydd mewn mecanweithiau ymdopi camaddasol, gan gynnwys hunan-niweidio a syniadaeth hunanladdiad

**Cam-drin a chamfanteisio'n rhywiol ar blant**

Mae'r amser cynyddol a dreulir ar-lein wedi cynyddu'r risg o wylio cynnwys niweidiol, cam-drin rhywiol a chamfanteisio

**Camfanteisio'n droseddol ar blant a thrais ieuenctid difrifol**

Mae ffactorau risg camfanteisio'n droseddol ar blant a thrais ieuenctid difrifol wedi gwaethygu yn ystod y pandemig

### Penderfynyddion

Cynnydd mewn tlodi ac anghydraddoldeb

Amhariad ar ddarpariaeth addysg a mynediad at wasanaethau

Cynnydd mewn diweithdra, gostyngiad mewn oriau/tâl a chaledi

Mae'r ffactorau hyn yn cael effaith uniongyrchol neu anuniongyrchol ar brofiadau PPhI o drais ac ACEs a gallent gael effaith niweidiol wrth symud ymlaen oni chymerir camau lliniaru

## Casgliad

Mae COVID-19 a'i gyfyngiadau cysylltiedig wedi cael effaith andwyol ar brofiadau plant a phobl ifanc o drais ac ACEs. Gyda llawer o PPhI wedi profi mwy o gysylltiad â thrais, gan gynnwys cam-drin yn y cartref, cam-drin corfforol, hunan-niweidio, cam-drin chamfanteisio rhywiol, a thrais ieuenctid difrifol, yn enwedig yn ystod cyfyngiadau'r cyfnod clo.

Mae'r pandemig wedi cael effaith negyddol ar lawer o benderfynyddion ehangach iechyd gan gynnwys tlodi plant, anghydraddoldebau mewn addysg a chyfleoedd cyflogaeth. Mae'r effeithiau negyddol hyn ar yr amodau ar gyfer iechyd yn debygol o gael effaith andwyol ar brofiad PPhI o drais ac ACEs yn y tymor hwy oni chymerir camau lliniaru.

Mae cyfyngiadau COVID-19 hefyd wedi arwain at ostyngiad mewn cefnogaeth a gwasanaethau diogelu pwysig ar gyfer PPhI ac felly llai o allu i nodi a chefnogi plant sydd mewn perygl o drais ac ACEs.

Nododd yr HNA sawl dull o arfer da i liniaru'r effaith negyddol ar PPhI gan gynnwys, cynnal gwasanaethau a chadw staff; atal ac ymyrraeth gynnar; cyllid sicr; hyfforddiant parhaus; cydgynhyrchu gyda PPhI; cyfathrebu wedi'i dargedu; targedu grwpiau agored i niwed a dull amlasiantaeth. Yn seiliedig ar dystiolaeth o'r HNA

awgrymwyd ystyried camau gweithredu yn y dyfodol i lywio strategaethau ar gyfer adferiad ac i gefnogi PPhI wrth symud ymlaen.

## Effaith COVID-19 ar brofiadau PPhI o drais ac ACEs: Prif ganfyddiadau

### Mae yfed alcohol a defnyddio sylweddau gan rieni yn y cartref yn cynyddu'r risg o niwed i PPhI



O ganlyniad i gyfyngiadau a orfodwyd yn ystod y pandemig, mae sefydliadau gyda'r nos (NTE), megis tafarndai, clybiau a bwytai, wedi wynebu cyfyngiadau tynn ac wedi gorfod cau. O ganlyniad, bu pryderon ynghylch cynnydd mewn yfed gartref. Darganfu un astudiaeth **gynnydd o 28% yn y defnydd o alcohol gan gyfranogwyr yn ystod y cyfnod clo a nododd fod y defnydd yn uwch ymhlith rhieni â phlant o dan 18 oed (1)**. Mae tystiolaeth yn awgrymu bod cynnydd yn amlder a maint y defnydd o alcohol yn y cartref yn cynyddu'r risg o niwed i blant. Er enghraifft, mae yfed alcohol gan rieni yn arwain at rianta llai ymatebol ac mae'n ffactor risg cyffredin ar gyfer trais, cam-drin ac esgeulustod (2,3). At hynny, canfu arolwg o fis Tachwedd 2020 fod ***45% o ymwelwyr iechyd yn dweud eu bod wedi gweld cynnydd mewn cam-drin sylweddau gan rieni ers dechrau'r pandemig,*** sy'n ffactor risg hysbys ar gyfer cam-drin yn y cartref (4–6). Yn ogystal, mae PPhI a phobl ifanc sy'n profi cam-drin cyffuriau ac alcohol gan rieni gartref, yn ogystal ag esgeulustod neu gam-drin, mewn risg uwch o gymryd rhan mewn ymddygiad troseddol (7).

## Amlygiad PPhI i drais yn erbyn menywod, cam-drin yn y cartref a thrais rhywiol



Yn ystod y pandemig, mae Cymorth i Fenywod Cymru wedi gweld cynnydd sylweddol yn nifer y galwyr sy'n cyrchu cefnogaeth ar gyfer trais yn erbyn menywod, cam-drin yn y cartref a thrais rhywiol trwy'r llinell gymorth Byw Heb Ofn, ac maent yn adrodd am ddifrifoldeb a chymhlethdod cynyddol galwadau gyda mwy o risg i iechyd (8,9). Oherwydd y cyfnod clo a chyfyngiadau cadw pellter cymdeithasol, mae llawer o ffactorau risg DA wedi gwaethygu yn ystod y pandemig (*gweler blwch 1*) (10–12), tra bod mynediad at gymorth a mecanweithiau diogelwch ar gyfer dioddefwyr a goroeswyr wedi'u lleihau wrth i reolau o ran llai o gyswllt cymdeithasol gael eu gorfodi (13,14).

**Blwch 1. Risg a ffactorau gwaethygol cam-drin yn y cartref yn ystod COVID-19**

- Anghydraddoldeb rhywiol ac atgyfnerthu rolau rhyw traddodiadol yn y cartref
- Iechyd meddwl gwael gan gynnwys straen a gorbryder
- Straen plant (ee anniddigrwydd oherwydd diffyg gweithgareddau ac amser cymdeithasol, ofn, a diffyg dealltwriaeth)
- Bregusrwydd economaidd-gymdeithasol (ee ansicrwydd bwyd)
- Llai o gymorth iechyd meddwl
- Diweithdra
- Mynediad cyfyngedig i wasanaethau cymorth
- Camddefnyddio sylweddau
- Amlygiad ac agosrwydd dioddefwyr at y sawl sy'n cyflawni'r cam-drin

Mae llinell gymorth yr NSPCC wedi gweld cynnydd yn nifer y dioddefwyr cam-drin yn y cartref sy'n ceisio cefnogaeth (15). Dywedodd hanner y dioddefwyr hyn fod ganddynt blant, gan ddangos bod rhai PPhI wedi wynebu mwy o gysylltiad â cham-drin domestig ers i'r pandemig ddechrau (15). At hynny, mae'n debyg bod PPhI wedi gweld cynnydd mewn trais a cham-drin yn eu perthnasoedd eu hunain, gydag adrannau Damweiniau ac Achosion Brys yn Ne Cymru yn ***adrodd am gynnydd yn achosion pobl ifanc o dan 18 oed sy'n mynychu adrannau damweiniau ac achosion brys o ganlyniad i ymosodiad cam-drin yn y cartref yn ystod y pandemig*** (9).

Yn ogystal â cham-drin yn y cartref, ers dechrau'r pandemig bu mwy o bryder ynghylch cynnydd mewn cam-drin yn seiliedig ar anrhydedd, megis anffurfio organau cenhedlu benywod, trais plant a phobl ifanc tuag at rieni ac aflonyddu rhywiol (15–18) [INT1;3;6].

Er y gallai pobl ifanc fod mewn mwy o berygl o drais a cham-drin yn y cartref, gall grwpiau poblogaeth eraill fod mewn mwy o berygl hefyd, gan gynnwys grwpiau du a lleiafrifoedd ethnig (BAME), pobl ifanc a menywod, yn enwedig y rheini ag anableddau, ymfudwyr heb ddogfennau a dioddefwyr masnachu cyffuriau (6,11,19).

Mae arbenigwyr wedi codi pryderon ynghylch cyflawnwyr sy'n defnyddio cyfyngiadau'r pandemig i wella rheolaeth a gwyliadwriaeth dioddefwyr (13,14). ***Gwelodd y llinell gymorth Respect gynnydd mawr yn nifer y troseddwyr gwrywaidd a gysylltodd â'r gwasanaeth gyda phryderon am eu hymddygiad treisgar neu ymosodol eu hunain*** (20).

### Trais corfforol



Bu cynnydd mewn cam-drin corfforol yn erbyn PPhI ers dechrau'r pandemig. ***Yn ystod y cyfnod clo cyntaf ym mis Mawrth 2020, fe wnaeth Ofsted adrodd cynnydd o 20% yn nifer y babanod a phlant ifanc yn cael eu niweidio neu eu lladd*** (21,22). Yn ogystal, nododd ysbyty plant arbenigol yn Llundain gynnydd mawr ***yn nifer yr achosion o syndrom ysgwyd babanod yn ystod y pandemig*** (23). Gan adlewyrchu'r risg uwch o niwed, mae Childline yn nodi cynnydd yn

nifer y sesiynau cwnsela ar gyfer cam-drin corfforol ar ddechrau'r pandemig (24). Adroddodd ymatebwyr fod cam-drin corfforol wedi arwain at fecanweithiau ymdopi camaddasol ar gyfer PPhI e.e. mwy o yfed alcohol, ymddygiadau hunan-niweidio, a meddyliau hunanladdol (24). Gall dioddefwyr cam-drin corfforol brofi effeithiau seicolegol hirdymor e.e. datblygu problemau iechyd meddwl ac arddangos ymddygiad heriol (24).

## Iechyd a llesiant meddyliol PPhI



***I rai PPhI, mae'r pandemig wedi rhoi cyfle i gryfhau perthnasoedd teuluol ac wedi rhoi seibiant rhag straen*** e.e. bwlio yn yr ysgol, ac o ganlyniad wedi cael effaith gadarnhaol ar iechyd meddwl (25–27). Fodd bynnag, nid yw hyn wedi bod yn wir am fwyafrif y PPhI. Mae ymchwil yn awgrymu ***bod PPhI yn profi gwaethygiad yn eu hiechyd meddwl*** gydag addysg yn un o'r prif gyfranwyr at hyn e.e. pryder ynghylch cyflawni graddau a chyfleoedd gwaith yn y dyfodol (26–31) [INT1;2;3;5;9;11;12]. Dywedodd PPhI eu bod yn teimlo na allent ymdopi, gan brofi meddyliau hunanladdol a gorbryder gwaeth. I lawer, mae hyn wedi arwain at fecanweithiau ymdopi camaddasol, megis hunan-niweidio, anhwylderau bwyta, camddefnyddio sylweddau ac ymddygiad treisgar (31–33).

Er gwaethaf yr effaith negyddol amlwg ar iechyd meddwl y mae COVID-19 wedi'i chael, ac yn parhau i'w chael, mae diffyg cefnogaeth ar gyfer iechyd meddwl ar gael o hyd (31,34) [INT2]. Mewn un astudiaeth, nododd fwy o PPhI ei bod yn ofynnol i'w hysgolion leihau'r gefnogaeth iechyd meddwl sydd ar gael ers y pandemig, oherwydd anawsterau cyllido ac adnoddau, o gymharu â'r rhai a ddywedodd fod eu hysgolion wedi cynyddu maint y gefnogaeth (31). Dywedodd y rhai â phroblem iechyd meddwl a oedd yn bodoli eisoes ac a oedd yn dal i dderbyn cefnogaeth ar gyfer eu hiechyd meddwl eu bod yn cael galwadau ffôn byrrach a heriau gyda phreifatrwydd (35). Nododd gweithwyr proffesiynol bryderon hefyd am les, gan ei bod yn fwy heriol asesu risg o bell (25).

Y poblogaethau a nodwyd fel y rhai yr effeithir arnynt yn fwyaf negyddol gan oblygiadau iechyd meddwl COVID-19 yw, y rhai nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant (NEET), BAME, ffoaduriaid a cheiswyr lloches, y rhai ag anghenion addysgol arbennig a/neu anabledd (SEND), grwpiau lesbiaidd, hoyw, deurywiol, trawsryweddol+ (LHDT+), gofalwyr ifanc, blynyddoedd cynnar, y rhai mewn canolfannau cadw neu'r system cyfiawnder ieuenctid, a'r rheini â phroblemau iechyd meddwl neu gorfforol sy'n bodoli eisoes (15,36,45,46,37–44).

## Cam-drin a chamfanteisio'n rhywiol ar blant



O ganlyniad i COVID-19 a'i gyfyngiadau, mae mwyafrif y gweithgareddau addysgol a gweithgareddau cymdeithasol wedi symud ar-lein, sy'n golygu bod PPhI yn treulio mwy o amser heb oruchwyliaeth ar y rhyngrwyd. O ganlyniad, mae PPhI yn fwy agored i wylio cynnwys niweidiol ac maent mewn mwy o berygl o gam-drin rhywiol, camfanteisio a meithrin perthynas amhriodol (47) [INT1;2].

Yn ogystal, mae'r pandemig wedi golygu bod unigrwydd wedi gwaethygu ac mae PPhI wedi dod yn llai hapus, dau ffactor sy'n cynyddu bod yn agored i feithrin perthynas amhriodol ar-lein (48). ***Ar ddechrau'r pandemig, nododd yr Asiantaeth Troseddau Genedlaethol dros 300,000 o unigolion sy'n peri risg ar-lein i blant a phobl ifanc yn ystod y pandemig*** (49). Yn ogystal, gwnaeth yr Internet Watch Foundation rwystro oddeutu 8.8 miliwn o ymdrechion gan ddefnyddwyr rhyngrwyd y DU i gael mynediad at fideos a delweddau o blant yn dioddef cam-drin rhywiol (50). Mae datblygu a dosbarthu

delweddau anweddus, yn enwedig deunydd wedi'i hunangynhyrchu, wedi bod yn amlwg ers dechrau'r pandemig (47).

Yn ogystal â threulio mwy o amser ar y rhyngrwyd, mae PPhI hefyd yn treulio mwy o amser yn y cartref. I rai, mae hyn yn golygu treulio mwy o amser gyda chyflawnwr camdriniaeth. Er gwaethaf gostyngiad cyffredinol mewn galwadau i linell gymorth yr NSPCC ynghylch cam-drin rhywiol, mae canran y galwadau sy'n ymwneud â cham-drin rhywiol yng nghartref y plentyn ei hun wedi cynyddu ers y cyfnod clo (51). Ar ben hynny, mae nifer y ***sesiynau cwnsela Childline ar gyfer cam-drin rhywiol wedi cynyddu deirgwaith*** (51).

**Blwch 2. Ffactorau risg ar gyfer camfanteisio troseddol a thrais ieuenctid difrifol**

- Iechyd meddwl gwael
- Unigrwydd
- Unigedd
- Diweithdra
- Profi camddefnyddio sylweddau rhieni
- Esgeulustod
- Trais e.e. cam-drin yn y cartref a chorfforol
- Camddefnyddio sylweddau
- Ansefydlogrwydd ysgol

Y grwpiau poblogaeth y nodwyd eu bod fwyaf mewn perygl o gam-drin rhywiol a chamfanteisio yn ystod y pandemig yw grwpiau SEND, plant sy'n derbyn gofal a'r rhai sydd â phroblemau iechyd meddwl presennol (52) [INT1]. Gall cam-drin a chamfanteisio rhywiol gael effeithiau negyddol hirdymor ar PPhI e.e. effeithiau iechyd meddwl, megis anhwylder straen wedi trawma, gorbryder ac iselder, ac ymddygiadau heriol, megis camddefnyddio sylweddau a throseddu (53).

### Camfanteisio'n droseddol ar blant a thrais ieuenctid difrifol



O ganlyniad i'r pandemig, mae ffactorau risg camfanteisio'n droseddol ar blant a thrais ieuenctid difrifol wedi gwaethygu ar gyfer PPhI (*Gweler Blwch 2*) (54,55). Ar hynny, mae PPhI sydd wedi profi trawma mewn mwy o berygl o gamfanteisio, ac yn fwy tebygol o fod yn ddioddefwyr ac yn gyflawnwyr trais difrifol (56). Er bod data'r heddlu yn tynnu sylw at ostyngiad mewn trais ieuenctid difrifol yr adroddwyd amdano, mae'n debygol nad yw'r mater wedi diflannu ond yn hytrach mae'n dynodi mwy o droseddoldeb cudd (57).

Gyda mwy o amser yn cael ei dreulio ar-lein heb oruchwyliaeth. Mae llawer o grwpiau troseddol, fel grwpiau eithafol a gangiau, wedi defnyddio'r cyfnod hwn  o aflonyddwch fel cyfle i gamfanteisio ar PPhI (58–61)

Y grwpiau sydd wedi'u nodi fel y rhai sydd fwyaf agored i gamfanteisio troseddol a thrais ieuenctid difrifol yn ystod y pandemig yw, SEND, NEET, y digartref, plant sy'n derbyn gofal a'r rheini â materion iechyd meddwl sylfaenol (56,62–64) [INT12].

### Effaith economaidd-gymdeithasol



Mae pandemig COVID-19 wedi cael effaith negyddol ledled y byd ar yr economi. Cyn y pandemig, roedd gan Gymru un o'r lefelau tlodi uchaf yn y DU (y pen), gyda dros chwarter y plant yn byw mewn tlodi (65,66). Bydd effaith economaidd y pandemig yn sicr wedi gwaethygu hyn. Mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol yn amcangyfrif y gallai 1.1 miliwn yn rhagor o bobl ledled y DU wynebu tlodi erbyn diwedd 2020 (67).

Mae llawer o unigolion wedi wynebu diweithdra neu ostyngiad mewn incwm ac oriau oherwydd COVID-19  (67,68). Er gwaethaf yr anawsterau economaidd y mae llawer wedi'u hwynebu, mae'r amser cynyddol a dreuliwyd gartref wedi golygu bod biliau cyfleustodau a bwyd hefyd wedi cynyddu,

a gwariwyd mwy o arian ar ddifyrru PPhI (69). Mae hyn wedi gorfodi rhai teuluoedd difreintiedig i fenthyca arian, ac o ganlyniad, byddant yn cario mwy o ddyled i gyfnod o ansicrwydd ariannol (19). Mae angen mwy o gefnogaeth ar unigolion mewn tlodi, ond amharwyd ar hyn o ganlyniad i gyfyngiadau.

Mae cysylltiad cryf rhwng tlodi a thrais (70). Yn ogystal, mae'r rhai sydd mewn tlodi mewn risg uwch o drais hunangyfeiriedig, yn ogystal â bod yn ddioddefwr neu'n gyflawnwr trais allanol (71). Ar ben hynny, ***mae caledi economaidd yn ffactor risg ar gyfer cam-drin ac esgeuluso plant, gan nodi bod effaith negyddol COVID-19 ar yr economi yn debygol o gynyddu'r cam-drin a'r esgeulustod a brofir gan PPhI*** (72).

### Effaith addysgol



Mae sefydliadau addysgol wedi wynebu aflonyddwch mawr yn ystod y pandemig - gyda nifer o ysgolion yn cau ac ystod o wahanol gyfyngiadau wedi'u gosod. Caniatawyd i blant agored i niwed barhau â'u haddysg yn yr ysgol ond ni wnaeth cyfran fawr ohonynt wneud hynny (19). Ar ben hynny, dewisodd llawer o rieni addysgu eu plant gartref pan oedd ysgolion ar agor oherwydd ofn heintiad (32). O ganlyniad i gau ysgolion, roedd yn ofynnol i ysgolion symud addysg ar-lein a gweithio o bell trwy feddalwedd cynadledda a llwyfannau eraill e.e. yr Hwb. Roedd hyn yn her i grwpiau difreintiedig e.e. oherwydd diffyg gwaith gwahaniaethol i ddisgyblion â SEND, diffyg adnoddau/cefnogaeth ddigonol, mynediad at dechnoleg ddigidol, tai gorlawn, rhwystrau iaith, cyfrifoldebau gofalu ychwanegol a diffyg cefnogaeth rhieni (39,64,73–75). Dywedodd yr Education Endowment Foundation ***fod cau ysgolion yn debygol o wyrdroi'r naw mlynedd flaenorol o gynnydd a wnaed i leihau'r bwlch dysgu*** (76).

Ar gyfer PPhI ym mlwyddyn 9 ac uwch, achoswyd pryder oherwydd ansicrwydd ynghylch arholiadau a phwysau cynyddol i gynhyrchu eu gwaith gorau yn gyson yn ystod y flwyddyn, rhag ofn y byddai graddau a asesir gan ganolfannau (CAG) yn cael eu defnyddio. I rai, ni fyddai CAG yn adlewyrchu eu gwir botensial a allai achosi trallod pellach (31,65).

Mae ysgolion yn cynnig diogelwch pwysig i blant a system gymorth hanfodol. ***Mae cau ysgolion wedi lleihau'r cyfle i PPhI roi gwybod am unrhyw gam-drin, camdriniaeth neu faterion iechyd meddwl, ac wedi ei gwneud yn llai posibl i weithwyr proffesiynol nodi plant sydd mewn perygl*** (77).

Y rhai sydd fwyaf mewn perygl o effaith addysgol negyddol COVID-19 yw, BAME, grwpiau incwm isel, y digartref, PPhI yn y system cyfiawnder ieuenctid, PPhI gyda SEND a'r rhai sydd wedi'u gwahardd o'r ysgol (39,64,65,73-75,78,79) [INT11]. Mae cyflawniad a dyheadau academaidd uchel yn ffactorau amddiffynnol ar gyfer trais ieuenctid difrifol a chamfanteisio troseddol (7,80,81). Mae disgyblion sydd â chyflawniad academaidd isel yn fwy tebygol o gymryd rhan mewn ymddygiadau treisgar, neu ddioddef ohonynt, o gymharu â myfyrwyr uchel eu cyflawniad (82). Felly, mae'n bwysig sicrhau bod grwpiau agored i niwed yn cael eu cefnogi a'u bod yn cael cyfle cyfartal i osgoi anfantais bellach o ganlyniad i COVID-19.

### Effaith cyflogaeth



Mae pobl ifanc yn fwy tebygol o weithio mewn gwaith ansefydlog â chyflog isel gyda chontractau dim oriau mewn sectorau sydd wedi cau e.e. lletygarwch a manwerthu, y mae'r pandemig wedi effeithio'n fawr arnynt. O ganlyniad, mae llawer wedi wynebu diweithdra neu ostyngiad mewn oriau a chyflog (19,33,35,36,83,84). Ar ben hynny, mae'r effaith ar gyflogaeth wedi gadael pobl ifanc yn poeni am eu rhagolygon gyrfa yn y dyfodol a'r posibilrwydd o fynd i gyflogaeth â chyflog uwch (33) (35,74,83–87).

Y grwpiau poblogaeth sydd fwyaf mewn perygl o'r effaith cyflogaeth yw grwpiau BAME a menywod (15,84,88,89). Mae pobl ifanc sy'n NEET yn fwy tebygol o roi gwybod am heriau gyda'u hiechyd meddwl a'u llesiant (35,84,86,87). Mae PPhI sydd wedi profi iechyd meddwl gwael, sy'n ddi-waith neu wedi profi gostyngiad mewn incwm yn fwy agored i droseddwyr yn camfanteisio arnynt (62,63). At hynny, (62,63), mae ansefydlogrwydd economaidd, diweithdra ac amddifadedd, y mae pob un ohonynt wedi'u gwaethygu i bobl ifanc o ganlyniad i COVID-19, yn ffactorau risg ar gyfer trais ieuenctid difrifol (81).

## Arfer da i liniaru'r effeithiau negyddol ar PPhI

*Sefydlwyd y themâu canlynol o'r adolygiad llenyddiaeth fel arfer gorau i liniaru'r effeithiau negyddol ar brofiad PPhI o drais ac ACEs.*

| Cynnal gwasanaethau a chadw staff |
|---|
| Oherwydd effaith niweidiol COVID-19 ar iechyd, mae llawer o aelodau staff o wasanaethau critigol PPhI wedi cael eu hail-leoli (4,90,91). Mae hyn wedi arwain at lai o gapasiti i wasanaethau plant ddelio â PPhI sydd mewn perygl o drais ac ACEs, ynghyd â llai o allu i adnabod plant sydd mewn perygl. Bydd gwasanaethau plant yn rhan annatod o ddelio ag effeithiau negyddol tymor byr a thymor hir COVID-19 ar PPhI (92,93). Mae cadw staff yn bwysig er mwyn sicrhau bod gwasanaethau'n gweithredu hyd eithaf eu gallu. |

| Ymyrraeth gynnar ac atal |
|---|
| Mae'n debygol y bydd COVID-19 yn cael effaith hirdymor ar PPhI, gan gynnwys eu profiadau o drais ac ACEs. Bydd buddsoddi mewn ymyrraeth gynnar yn helpu i ailadeiladu'r perthnasoedd dibynadwy a fu'n absennol yn ystod y pandemig sy'n hanfodol i ddatblygiad iach [INT8;9]. Mae'n bwysig bod cyllid ar gyfer ymyrraeth gynnar ac atal yn cael ei gynnal gan ei fod yn ddull cost-effeithiol ac mae tystiolaeth dda o'i effeithiau cadarnhaol ar aildroseddu, ymddygiad troseddol a phroblemau cysylltiedig (94,95). |

| Cyllid parhaus |
|---|
| Ers i'r pandemig ddechrau, mae gwasanaethau cymorth PPhI wedi gweld gostyngiad pellach mewn cyllid (96,97). Yn ogystal, mae cyfleoedd cyllido e.e. codi arian, wedi bod yn gyfyngedig ac yn aml na fu modd eu cael oherwydd cyfyngiadau a nifer o gyfnodau clo (98). Mae angen sicrhau bod cyllid ar gyfer y gwasanaethau hyn yn cael ei gynnal i sicrhau bod gan wasanaethau'r adnoddau angenrheidiol i weithredu hyd eithaf eu gallu (18,35,99,100) [INT3;6]. |

## Hyfforddiant

Mae pwyntiau cysylltiadau ar gyfer PPhI wedi cael eu lleihau ers dechrau'r pandemig o ganlyniad i'r cyfyngiadau a'r cyfnodau clo. Mae'n hanfodol bod staff sy'n delio â PPhI, gweithwyr allweddol a chymunedau yn derbyn hyfforddiant parhaus ar nodi arwyddion cam-drin a deall beth i'w wneud pan yn poeni am blentyn mewn sefyllfa o'r fath (14,18,64,72,79,101). Yn ogystal, dylid darparu adnoddau a gwybodaeth i staff a chymunedau am y gefnogaeth berthnasol sydd ar gael.

## Cyfathrebu

Nododd y llenyddiaeth fod gan PPhI angen gwybodaeth nas diwallwyd o ganlyniad i oedolion yn methu â chyfleu gwybodaeth COVID-19 mewn modd hygyrch (92,102,103). Mae angen gwybodaeth glir wedi'i theilwra wedi'i thargedu tuag at bobl ifanc i'w helpu i ddeall a lliniaru gorbryder, ofn a rhwystredigaeth ynghylch y feirws (36,43,100,103) [INT5; 8;9]. Mae hefyd yn bwysig tywys rhieni a gwarcheidwaid ar sut i gyfathrebu a chyflwyno'r wybodaeth hon i PPhI.

## Cydgynhyrchu

Mae PPhI wedi mynegi eu bod yn teimlo nad yw neb yn gwrando ar eu lleisiau (36). Mae hyn wedi golygu eu bod yn teimlo'n rhwystredig, yn ddig ac yn orbryderus, yn ogystal â bod yn ddi-rym i newid eu dyfodol eu hunain (33). Mae cydgynhyrchu yn broses bwysig sy'n arwain at fuddion i'r rhanddeiliad ieuenctid (e.e. ymdeimlad uwch o reolaeth) a'r sefydliad (e.e. gwell dealltwriaeth o'r boblogaeth darged (104–106). Mae'n hanfodol bod PPhI o grwpiau agored i niwed hefyd yn cael eu cynnwys yn y broses benderfynu i gynrychioli'r effeithiau gwahaniaethol arnynt (73,103).

## Ymateb wedi'i dargedu

Mae'n amlwg bod effeithiau negyddol COVID-19 yn effeithio fwyaf ar PPhI o grwpiau agored i niwed e.e. BAME, SEND, incwm isel a LHDT. Dylid defnyddio ymateb wedi'i dargedu i ganiatáu cyfle gwell i'r rhai sydd wedi bod fwyaf dan anfantais i adennill tir coll ac i osgoi canlyniadau negyddol yn y dyfodol (87,107,108). At ei gilydd, mae'r dystiolaeth yn dangos yr angen am wybodaeth wedi'i thargedu a chynllunio adferiad sy'n canolbwyntio ar anghenion is-grwpiau penodol o PPhI (103).

## Dull amlasiantaeth

Mae'n amlwg bod angen dull amlasiantaeth i frwydro yn erbyn yr effaith negyddol ar PPhI (109) [INT1;2;8;9]. Bydd angen i hyn gynnwys rhannu data a chydweithio ar draws ystod eang o sefydliadau fel addysg, gofal iechyd a gwasanaethau troseddu ieuenctid (79). Bydd dull amlasiantaeth yn arfogi sefydliadau yn well i nodi plant sydd mewn perygl, gwella ymyriadau a diogelu, a mynd i'r afael ag unrhyw fylchau mewn gwybodaeth (47,64,79,92,110). Mae ymchwil yn dangos y gall partneriaeth gref rhwng sefydliadau a'r gymuned atal ystod o ymddygiadau sy'n gysylltiedig ag ACEs, megis trosedd, camddefnyddio sylweddau a thrais (110).

Gweler y prif adroddiad am enghreifftiau o arfer gorau cymhwysol.

## Camau gweithredu yn y dyfodol

Mewn ymateb i'r effaith eang y mae'r pandemig a'i gyfyngiadau cysylltiedig wedi'i chael ar PPhI, gellid mabwysiadu ystod o gamau gweithredu yn y dyfodol a allai helpu i liniaru'r effeithiau negyddol a hyrwyddo cydnerthedd unigolion a chymunedau. Yn seiliedig ar y dystiolaeth yn yr adroddiad hwn, mae ystod o ystyriaethau polisi allweddol a'r camau nesaf a allai lywio strategaethau ar gyfer adfer a chefnogi PPhI wrth symud ymlaen yn cael eu cyflwyno isod:

1) **Ail-sefydlu cefnogaeth wyneb yn wyneb** ar gyfer PPhI a'u teuluoedd. Mae ysgolion a gwasanaethau plant yn hanfodol ar gyfer adnabod a chefnogi plant sydd mewn perygl o gael ACEs.

2) **Darparu hyfforddiant a hyfforddiant gloywi** ar nodi arwyddion cam-drin, adrodd am gamdriniaeth yn ddiogel a ble i gael gafael ar gymorth i staff sydd mewn cysylltiad rheolaidd â PPhI ar draws sectorau ac yn y gymuned. Mae hyfforddiant ac ymgyrchoedd ymwybyddiaeth Gwylwyr yn bwysig i gynyddu cydnabyddiaeth ac ymyrraeth ddiogel o ran PPhI sydd mewn perygl o niwed.

3) **Amddiffyn rhag anghydraddoldebau sy'n gwaethygu** trwy sicrhau bod mesurau cymorth yn cael eu cyfeirio'n deg at gymunedau a grwpiau yr effeithir arnynt fwyaf gan ddefnyddio egwyddorion cyffredinedd cyfrannol e.e. BAME, SEND, incwm isel, LHDT, NEET, gofalwyr ifanc, plant sy'n derbyn gofal, plant yn y system cyfiawnder ieuenctid, ceiswyr ffoaduriaid a lloches a'r rhai sydd ag anghenion iechyd meddyliol neu gorfforol sy'n bodoli eisoes.

4) **Sicrhau bod iechyd meddwl a llesiant yn ystyriaeth allweddol** ar gyfer penderfyniadau sy'n ymwneud â PPhI ac adferiad o COVID-19. Dylid ystyried iechyd meddwl ar lefel unigolyn, ysgol a chymuned er mwyn helpu i leddfu effeithiau negyddol hirdymor COVID-19.

